

SWYDD DDISGRIFIAD

TEITL SWYDD:	Hyfforddai Tai
YN ATEBOL I:	Cydlynnydd Datblygu Busnes
CYFRIFOL AM:	Dim yn berthnasol
ADRAN:	Cwsmeriaid a Chymunedau
CYFLOG (£):	£11,382 y flwyddyn / £218.30 yr wythnos neu gyfatebol i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol / Cyflog Byw

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Ydych chi eisiau bod yn rhan o dîm rheoli tai dynamig sy'n gweithio i gyflenwi cartrefi fforddiadwy a chynaliadwy yng ngogledd Cymru y mae cymaint o alw amdanynt?

Mae cyfle gwydch ar gael i chi gyda Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) - darparwr tai fforddiadwy o safon yng ngogledd Cymru, i gael profiad o weithio mewn adran rheoli tai brysur.

Byddwch yn gweithio gyda thimau gwahanol yn eu tro gan gynnwys Rhent, Gosod, Gwasanaethau Bro a Gwasanaethau Gofal Cwsmer i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'n tenantiaid a chwsmeriaid ym mhob adran.

Bydd hyfforddiant a chymorth llawn ar gael yn y rôl.

PRIF GYFRIFOLDEBAU

Gwasanaethau Cwsmer



Mae Tîm Gwasanaeth Gofal Cwsmer CCG yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth cwsmer rhagorol. Ateb galwadau ffôn, delio gydag e-byst a helpu i ddatrys cwynion. Bydd eich rôl o fewn y tîm Gwasanaeth Gofal Cwsmer yn cynnwys;

- Ateb y ffôn, ymateb i e-byst
- Hybu'r gwasanaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol

Rhent

Mae'r tîm Rhenti ac Incwm yn gyfrifol am gasglu rhent a thaliadau eraill gan denantiaid CCG. Y prif nod yw uchafu'r incwm sy'n ddyledus i CCG mewn modd effeithiol sy'n ystyried anghenion tenantiaid a phrydleswyr ynghyd ag anghenion busnes y sefydliad Byddwch yn dysgu sut i;

- Roi cyngor ar fudd-daliadau i helpu tenantiaid
- Gweithio gyda thenantiaid i ddarparu amrywiaeth o opsiynau talu rhent - darganfod beth sy'n addas i'r tenant - Debyd Uniongyrchol, cardiau talu ayb,
- Dilyn canllawiau polisi
- Cyfeirio tenantiaid at asiantaethau perthnasol. (e.e. Cyngor ar Bopeth).

Gosod

Mae'r Tîm Gosod yn gyfrifol am osod eiddo CCG ar gyfer Tenantiaid addas. Byddwch yn cynorthwyo'r tim Gosod i:

- Sicrhau bod tai gwag yn cael eu hail osod cyn gynted ag sy'n bosib ac mewn ffordd effeithiol a hynny i'r safon gywir.
- Rheoli hysbysiadau am eiddo gwag - delio gyda derbyn goriadau ar ddiwedd y cyfnod rhybudd.
- Gweithio gyda thîm trwsio, cynnal a chadw CCG (Tîm Trwsio) ar unrhyw waith trwsio yr ymgwymerwyd ag ef ar eiddo gwag cyn iddynt gael eu gosod i denantiaid.

Gwasanaethau Bro

Mae'r Tîm Gwasanaethau Bro yn sicrhau bod stadau a chymdogaethau CCG yn ddiogel, glân a chyfforddus ar gyfer ei breswylwyr. Rydym yn cefnogi Cymunedau cynaliadwy, cryf drwy fynd i'r afael gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan



sicrhau bod gerddi a'r amgylchedd yn lân a thaclus, yn ymgysylltu â'r Gymuned leol, ac yn cefnogi prosiectau a chynlluniau. Byddai eich rôl o fewn y tîm Gwasanaethau Bro yn cynnwys


- Cefnogi timau CCG i ofalu am gymdogaethau - lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynyddu balchder ar stadau.
- Dod i adnabod tenantiaid a'u cynorthwyo i gynnal eu tenantiaeth
- Byddwch yn dysgu sut i wirio safonau diogelwch ar gyfer mannau cyffredin e.e. fflatiau

Ni all unrhyw swydd ddisgrifiad ymdrin â phopeth a all godi fel rhan o'r swydd ar adegau gwahanol. Er mwyn cynnal gwasanaeth effeithiol efallai y bydd gofyn i chi ymgymryd â thasgau eraill rhesymol, sy'n cyfateb i raddau helaeth â'r rhai a geir yn y ddogfen hon fel y pennir gan eich rheolwr llinell.

Mae CCG yn cydnabod y bydd angen cymorth a chefnogaeth ar Reolwyr dan Hyfforddiant ac y bydd hyn yn cael ei gynllunio mewn modd priodol.

MANYLEB PERSON

	HANFODOL/ DYMUNOL
CYMWYSTERAU	
3 TGAU gradd D neu uwch (neu gyfatebol), rhaid iddynt gynnwys Mathemateg / Saesneg / Cymraeg	H
PROFIAD, GWYBODAETH A SGILIAU	
Gwybodaeth neu ddiddordeb gwirioneddol mewn tai neu faterion lles.	H
Gwybodaeth am waith gwirfoddol neu weithio yn y gymuned	D
Profiad o weithio gyda chwsmeriaid	D
Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol (ar y ffôn, wyneb yn wyneb neu yn ysgrifenedig)	H
Sgiliau trefnu, gweinyddu a TG rhagorol - yn gallu defnyddio pecynnau TG sylfaenol gan ddefnyddio Microsoft Office (Word, Excel, Outlook) neu becyn tebyg	H
Yn gallu gweithio gyda thenantiaid, staff a phartneriaid eraill	D
Yn gallu cynnig gwasanaeth cwsmer da.	D
Agwedd bositif i gynorthwyo cwsmeriaid a chymunedau	H



GOFYNION IEITHYDDOL

Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a Saesneg (gellid darparu cymorth os bydd angen i helpu datblygu sgiliau ysgrifenedig a llafar Cymraeg)

H

